Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.11.2020

## Amser yn rhedeg allan i fusnesau Gwynedd hawlio eu grant clo bach

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad i'r wasg yn annog busnesau'r sir i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol Llywodraeth Cymru sydd ar gael i helpu cwmnïau sydd wedi'u heffeithio gan y cyfnod clo byr. Bydd y Grantiau Ardrethi Annomestig y Cyfyngiadau a Grant Dewisol y Cyfyngiadau a weinyddir gan yr Awdurdodau Lleol yn cau am 5:00pm dydd Gwener yma, 20 Tachwedd 2020, neu pan fydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn. Wrth ymgeisio, bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

I weld y datganiad i'r wasg llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd17Tach2020

## Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cam 3 yn agor 23 Tachwedd 2020

Yn dilyn y galw uchel am gyllid ar draws y sectorau celfyddydol a diwylliannol, bydd Cam 3 y Gronfa Gweithwyr Llawrydd ar agor ar gyfer ceisiadau ddydd Llun 23 Tachwedd 2020. I wirio eich cymhwysedd cyn i'r broses ymgeisio agor ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

## Taliad Cymorth Hunan Ynysu

Os ydi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn rhoi gwybod i weithiwyr, cyflogedig neu'n hunangyflogedig, bod rhaid hunan ynysu, mae'n bosib bod ganddynt hawl i Daliad Cymorth Hunan Ynysu o £500, os yn cwrdd â'r meini prawf. A fedrwch gylchredeg y wybodaeth yma i'ch staff a chysylltiadau os gwelwch yn dda. Ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Taliad-Cymorth-Hunanynysu.aspx

## Canllawiau Brexit

- Gwiriwch pa ddatganiadau y mae angen eu gwneud am nwyddau yr ydych yn dod i mewn, neu yn eu derbyn, i'r DU o 1 Ionawr 2021

O 1 Ionawr 2021, os ydych yn fusnes yn y DU sy'n dod â nwyddau neu'n eu derbyn i Brydain Fawr neu Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr pa ddatganiadau y gallai fod angen eu gwneud. Ewch i:

https://bit.ly/36Kk0PD

- Gwiriwch pa ddatganiadau y mae angen eu gwneud am nwyddau a anfonwch o'r DU o 1 Ionawr 2021

O 1 Ionawr 2021, os ydych yn fusnes yn y DU sy'n anfon nwyddau o Brydain Fawr neu Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr pa ddatganiadau y gallai fod angen eu gwneud. Ewch i:

https://bit.ly/38VvK4j

Mae gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer nifer o sectorau sydd angen paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio wrth i ni adael yr UE ddiwedd y flwyddyn i'w gael ar Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru. Ewch i:

https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy

## 'Brexit the Future' : Digwyddiad ar-lein 10 Rhagfyr 2020

Yn dilyn llwyddiant 'Brexit the Basics' a 'Brexit the Essentials' a gynhaliwyd yn ddiweddar, 'Brexit the Future' ydi'r trydydd yn y gyfres o bedwar digwyddiad ar-lein sy'n cael eu trefnu gan Gyngor Sir y Fflint, i gefnogi busnesau drwy'r cyfnod pontio gan arwain at Brexit terfynol ar 31 Rhagfyr 2020. Cynhelir y digwyddiad rhithwir hwn ar 10 Rhagfyr 2020 rhwng 8:30am a 10:00am. I archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3pFkNKf

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru